



Canllawiau Apêl Atodlen 14

Roedd y wybodaeth ar y daflen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi, ond nid oes unrhyw statws cyfreithiol iddi.

Pa bryd y gallwch apelio

Eich awdurdod lleol sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau hawliau tramwy.

Gallwch apelio yn erbyn eu penderfyniad os gwnaethoch chi gais i newid 'map diffiniol a datganiad' yr ardal, a naill ai:

- rydych yn anghytuno â'r penderfyniad - gelwir hyn yn 'apêl atodlen 14'
- ni wnaed y penderfyniad gan eich awdurdod lleol o fewn 12 mis - gelwir hyn yn 'gais am gyfarwyddyd'

Ni allwch apelio:

- os yw'r awdurdod lleol yn cymeradwyo defnydd gwahanol ar gyfer y tir, er enghraifft maent yn gwneud gorchymyn ar gyfer llwybr troed pan wnaethoch chi gais am lwybr ceffylau
- os na wnaethoch chi gyflwyno'ch cais gwreiddiol yn gywir, er enghraifft ni wnaethoch hysbysu'r tirfeddianwyr, y gallai'r newid effeithio arnynt

Nid oes ffi i'w thalu ar gyfer apelio.

Dim ond y sawl a wnaeth y cais sy'n gallu apelio. Os na wnaethoch chi gais, gallwch gynnig sylwadau ar apêl yn lle hynny.

Dyddiad cau ar gyfer apelio

Mae'n rhaid i chi apelio cyn pen 28 diwrnod o'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad, neu 12 mis ar ôl i chi gyflwyno'r cais os nad yw eich awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad.

Sut i apelio

Gwnewch eich apêl yn ysgrifenedig i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) neu drwy lenwi'r apêl. Os ydych eisiau apelio yn erbyn mwy nag un penderfyniad, mae'n rhaid i chi wneud apêl ar wahân ar gyfer bob un.

Dogfennau y mae'n rhaid i chi eu darparu

Os ydych chi'n apelio yn erbyn penderfyniad

Mae'n rhaid i chi gyflwyno copi o'r canlynol:

- eich cais gwreiddiol
- y rheswm dros eich apêl
- hysbysiad penderfyniad yr awdurdod
- unrhyw hysbysiadau a gyhoeddoch tra'n apelio, er enghraifft i roi gwybod i dirfeddianwyr eraill eich bod yn gwneud cais am newid
- map sy'n dangos yr hawl dramwy arfaethedig
- unrhyw ddogfennau eraill sy'n cefnogi'ch apêl yn uniongyrchol, er enghraifft eich sail ar gyfer apelio
- cadarnhad eich bod wedi hysbysu'r awdurdod lleol ynglŷn â'ch apêl

Os nad yw'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad

Mae'n rhaid i chi gyflwyno copi o'r canlynol:

- eich cais gwreiddiol
- cadarnhad eich bod wedi hysbysu'r tirfeddianwyr am eich cais gwreiddiol

Gallwch anfon y dogfennau hyn drwy'r e-bost i PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru pan fyddwch chi'n apelio.

Gallwch eu postio at PCAC hefyd.

PCAC
Tîm Gwaith Achos Arbenigol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Sylw ar apêl

Gall unrhyw un wneud sylw ar apêl hawl dramwy.

Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol ddweud wrth unrhyw un sydd wedi gwneud sylw ar y cais gwreiddiol (partïon â buddiant) bod yna apêl. Mae'n rhaid i'r cyngor wneud hyn cyn pen 14 diwrnod o'r apêl yn cael ei dilysu gan PCAC.

Ar ôl eich apêl

Bydd PCAC yn gwirio'ch apêl i wneud yn siŵr ei bod yn ddilys. Byddant yn dweud wrthy'ch beth sy'n digwydd nesaf a pha mor hir y gallai eich apêl gymryd.

Camau apêl:

- Hysbysiad o apêl wedi'i roi i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol cyn pen 28 diwrnod o'r awdurdod yn cyhoeddi penderfyniad. Mae'r apelydd yn cyflwyno sail yr apêl a dogfennaeth berthnasol i PCAC;
- Mae copïau o ddogfennau'r apêl yn cael eu rhoi i'r awdurdod, a gofynnir am ei ddatganiad yn gyfnewid (Gofynnir i'r awdurdod hysbysu partïon â buddiant ynglŷn â'r apêl);

- Datganiad yr awdurdod wedi'i anfon at yr Apelydd gyda chais am sylwadau;
- Copïau o sylwadau'r Apelydd, ac unrhyw ohebiaeth gan drydydd parti, yn cael eu rhoi i'r awdurdod am sylwadau;
- Mae copi o unrhyw ohebiaeth gan drydydd parti yn cael ei roi i'r Apelydd am sylwadau hefyd;
- Copïau o unrhyw sylwadau gan yr awdurdod yn cael eu rhoi i'r Apelydd a thrydydd parti (os oes un) am sylwadau terfynol;
- Copïau o unrhyw sylwadau gan yr Apelydd yn cael eu rhoi i'r awdurdod a thrydydd parti (os oes un) am sylwadau terfynol;
- Caiff yr holl sylwadau terfynol eu croes-gopïo rhwng yr awdurdod, yr Apelydd ac unrhyw drydydd parti er gwybodaeth yn unig;
- Cynhelir y digwyddiad, naill ai ymweliad â safle, gwrandawriad neu ymchwiliad; ac
- Mae Arolygydd, a benodwyd gan Weinidogion Cymru, yn penderfynu'r apêl.

Os ydych chi'n llwyddiannus

Ar gyfer apeliadau, bydd PCAC yn dweud wrth yr awdurdod i wneud y gorchymyn. Nid oes terfyn amser i'ch awdurdod lleol wneud hyn.

Os ydych chi'n anghytuno â'r penderfyniad

Gallwch herio'r penderfyniad yn yr Uchel Lys os credwch fod PCAC wedi gwneud camgymeriad cyfreithiol.

Mynnwch gael cyngor gan gyfreithiwr os ydych chi'n ansicr ynglŷn â hyn.

Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Os ydych chi'n cyfranogi mewn apêl Atodlen 14, yna, fel arfer, bydd y math o wybodaeth bersonol a gynhwysir yn eich sylwadau yn cynnwys eich enw, manylion cyswllt, ac unrhyw wybodaeth bersonol arall y dewiswch ei darparu.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd i brosesu'r apêl, ac mae hyn yn cynnwys trefnu bod eich sylwadau ysgrifenedig ar gael i'r awdurdod ac unrhyw bartïon perthnasol eraill.